***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 423 (Cy. 104)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Ebrill 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *6 Ebrill 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 28(4), (5)(b) a (6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Mai 2022.

### Diwygio Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021

**2.** Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn a dehongli) o Reoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021(**2**), yn y diffiniad o "awdurdod", ar y diwedd mewnosoder "neu gyngor cymuned cymwys o fewn ystyr adran 30(1) o Ddeddf 2021".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

4 Ebrill 2022

(**1**) 2021 dsc 1.
(**2**) O.S. 2021/1166 (Cy. 288).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys. Yn benodol, mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn rhoi i'r awdurdodau hynny bŵer i wneud pethau penodol at ddiben masnachol.

Mae'r pŵer i wneud pethau at ddiben masnachol yn ddarostyngedig i amodau a nodir yn adran 27 o'r Ddeddf. O dan adran 27(2), wrth arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol rhaid gwneud hynny drwy gyfrwng cwmni.

Mae adran 28(4) o'r Ddeddf yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu, drwy reoliadau, y bydd arfer y pŵer cyffredinol yn ddarostyngedig i amodau ychwanegol.

Mae Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau 2021") yn rhagnodi'r amodau sydd i'w bodloni gan brif gyngor cyn arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 1(2) o Reoliadau 2021 i gynnwys cynghorau cymuned cymwys o fewn ystyr "awdurdod". Effaith hyn yw estyn cymhwysiad Rheoliadau 2021 i gynghorau cymuned cymwys o 5 Mai 2022, sef y dyddiad y caniateir iddynt ddechrau arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, gan gynnwys at ddiben masnachol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.